

PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Iau, 31 Mawrth 2022

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd A. Lenny (Cadeirydd);

Y Cynghorwyr:

S.M. Allen, J.M. Charles, I.W. Davies, J.A. Davies, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, J.P. Jenkins, C. Jones, M.J.A. Lewis, K. Madge, B.D.J. Phillips a G.B. Thomas;

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

R. Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd;
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr;
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (Aman Gwendraeth);
Z.A. Evans, Uwch-dechnegydd [Cyswllt Cynllunio];
G. Glenister, Swyddog Rheoli Datblygu;
E. Jones, Swyddog Rheoli Datblygu;
H. Rice, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu;
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
A. Eynon, Prif Gyfieithydd;
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Rhith-Gyfarfod: 10.00 yb - 1.20 yp

[**SYLWER:** Am 1:00pm tynnwyd sylw'r Pwyllgor at Reol 9 o Weithdrefn y Cyngor – Hyd y cyfarfod – ac, oherwydd bod y cyfarfod wedi bod yn mynd rhagddo ers tair awr, penderfynwyd gohirio ystyried y rheolau sefydlog, yn unol â Rheol 23.1 o Weithdrefn y Cyngor, er mwyn galluogi'r Pwyllgor i gwblhau'r gwaith a oedd yn weddill ar yr agenda.]

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr D.M. Cundy a H.I. Jones.

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

3.1 PENDERFYNWYD caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

PL/01280	<p>Cais am annedd aml-lefel a'r holl waith cysylltiedig ar dir gerllaw 19 Parc yr Onnen, Caerfyrddin, SA31 1ED</p> <p>(Sylwer: mae caniatâd yn amodol ar Gytundeb Adran 106 i sicrhau cyfraniad ariannol at dai fforddiadwy).</p> <p>Daeth sylw i law a wrthwynebai'r cais, ac a ailbwysleisiai'r pwyntiau canlynol y manylwyd arnynt yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth</p>
----------	---

	<p>Lle a Chynaliadwyedd:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pryderon yn ymwneud â mynediad i'r safle gan nad oedd caniatâd wedi'i roi i ehangu'r ffordd fynediad; • byddai'r mynediad arfaethedig yn effeithio'n ddifrifol ar amwynder rhif 19 Parc yr Onnen; • Gwrthodwyd caniatâd o'r blaen yn rhannol ar sail mynediad a'r angen i ledu'r ffordd; • Colli preifatrwydd; <p>Ymatebodd yr ymgeisydd, yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu a'r Uwch-dechnegydd (Cyswllt Cynllunio Priffyrdd) i'r materion a godwyd.</p>
PL/01438	Cais am annedd newydd yn lle'r un presennol yn Rosedale, 29 Ffordd Cross Hands, Gors-las, Llanelli, SA14 6RR
PL/01800	<p>Cais am falconi ar ochr de-orllewinol yr eiddo i gymryd lle balconi a gafodd ei symud yn flaenorol yn Llwyn yr Hebog, Cwm Ifor, Llandeilo, SA19 7AS</p> <p>Daeth sylw i law a wrthwynebai'r cais, ac a ailbwyseisiai'r pwyntiau canlynol y manylwyd arnynt yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dim balconi blaenorol; • Colli preifatrwydd; • Roedd y deunyddiau a gynigiwyd ar gyfer y balconi yn amhriodol • Byddai goleuadau y tu allan yn ardal y balconi yn effeithio ar ystlumod. <p>Ymatebodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd.</p>
PL/03134	Cadw defnydd rhan o dŷ annedd fel llety gwyliau hunangynhwysol ar safle Glanlash, Caerbryn, Rhydaman, SA18 3EJ
PL/03205	<p>Newid defnydd o A1 i fflat preswyl 1 ystafell wely gan gynnwys mân newidiadau i'r wedd allanol yn 62 Heol Caerfyrddin, Cross Hands, SA14 6SU</p> <p>(Sylwer: mae caniatâd yn amodol ar Gytundeb Adran 106 i sicrhau cyfraniad ariannol at dai fforddiadwy. Os na chaiff cytundeb cyfreithiol ei lofnodi neu os na thelir y cyfraniad gofynnol cyn pen 12 mis, mae'r Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd wedi'i awdurdodi i wrthod y cais.).</p>
PL/03550	Cadw cyfleuster parcio a theithio ar raddfa lai a seilwaith cysylltiedig yn safle Parcio a Theithio Nant-y-ci, Llanllwch, Caerfyrddin, SA33 5DR

3.2 PENDERFYNWYD caniatáu'r cais cynllunio canlynol yn groes i argymhelliad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd i'w wrthod:-

PL/03034	Cais am ddau gaban ar olwynion a chyfleusterau cysylltiedig at ddibenion llety i dwristiaid yn Llwyndewi, Meidrim,
-----------------	---

	<p>Caerfyrddin, SA33 5PD</p> <p>Cafwyd sylw gan yr aelod lleol o blaid y cais ar y sail ei fod yn unol ag amcanion strategol twristiaeth ar raddfa fach yng nghefn gwlad ac na chafwyd unrhyw wrthwynebiadau gan gymdogion na'r Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth.</p> <p>Ymatebodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu a'r Uwch-gyfreithiwr i'r materion a godwyd wrth i'r adroddiad gael ei ystyried.</p> <p>Yn groes i argymhelliad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd bod y cais yn cael ei wrthod, roedd y Pwyllgor o'r farn bod y cais yn dderbyniol yng nghyd-destun Polisiâu TSM1, TSM2 a TSM3 ar sail y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd y safle'n briodol ar gyfer datblygiad o'r fath ac ni fyddai'n effeithio ar y dirwedd; • Nid oedd y tir yn addas at ddefnydd amaethyddol ac felly roedd arallgyfeirio'n rhesymol; • Byddai'r defnydd arfaethedig yn annog bioamrywiaeth. <p>Rhoddir caniatâd yn amodol ar y canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. amod i sicrhau bod y llety at ddefnydd gwyliau yn unig; 2. gosod amodau priffyrdd priodol fel y nodir yn yr adroddiad; 3. gosod amodau priodol sy'n sicrhau y cydymffurfir â'r mesurau gwella bioamrywiaeth a thirwedd y manylir arnynt yn yr adroddiad.
--	--

4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 3YDD MAWRTH 2022

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi ei gynnal ar 3ydd Mawrth, 2022, gan eu bod yn gywir.

CADEIRYDD

DYDDIAD

[SYLWER: Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarlliediad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.]